University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Fersiwn 2 - Gorffennaf 2016

CYTUNDEB RHYDDHAU POB HAWL

NI DDYLID defnyddio'r cytundeb hwn at ddibenion ymchwil.

Dylech lenwi a chyflwyno'r cytundeb hwn i Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol.

Cytundeb Rhyddhau Pob Hawl rhwng Prifysgol De Cymru ("y Brifysgol") a'r hwn sydd wedi arwyddo isod ("Chi"). Diben y Cytundeb hwn yw sicrhau bod y deunydd a'r perfformiad sydd wedi'u disgrifio isod ("y deunydd") yn cael eu defnyddio gan Brifysgol De Cymru yn unol â'ch dymuniadau chi.

- Rydych chi'n datgan bod gwaith rydych chi'n ei greu fel rhan o'ch amodau cyflogaeth ym Mhrifysgol De Cymru yn waith gwreiddiol.
- Rydych yn rhoi trwydded fyd-eang, anghyfyngedig, ddi-freindal sy'n fytholbarhaus i'r Brifysgol i storio a chyhoeddi'r deunydd yn gyflawn neu'n rhannol at ddibenion addysgol a marchnata, a gweithgareddau eraill y Brifysgol.
- Rydych chi'n cytuno:
  - Bod gan y Brifysgol yr hawl i dynnu ffotograffau neu recordio fideo/sain ohonoch chi (a/neu eich eiddo) at ddibenion addysgol a marchnata a gweithgareddau eraill y Brifysgol.
  - Caiff y Brifysgol olygu, addasu neu gyfieithu'r deunydd a'i gyhoeddi ar ei gwefan (gan gynnwys gwefan iTunesU) at ddibenion addysgol a marchnata a gweithgareddau eraill y Brifysgol.
- Rydych chi'n awdurdodi'r Brifysgol i gopïo copïau o'r deunydd i weinyddion diogel y Brifysgol fel sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn trosglwyddo'r deunydd yn effeithlon.
- Rydych chi'n deall bod yn rhaid i unrhyw gyfranwyr trydydd parti (fel perfformwyr neu gyfweleion) hefyd gadarnhau eu bod yn cytuno drwy lenwi Cytundeb Rhyddhau Pob Hawl, ac y dylid ei ddychwelyd at arweinydd y modiwl perthnasol.
- Rydych chi'n cadarnhau nad yw eich deunydd yn torri hawlfraint, eiddo deallusol arall na hawliau cyfreithiol eraill unrhyw drydydd parti. Rydych chi'n cadarnhau na fydd y deunydd yn dwyn anfri ar y Brifysgol nac yn ddifenwol.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau sydd wedi'u nodi uchod, dylech lofnodi'r ffurflen (naill ai'n ddigidol neu â llaw) a'i chyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol, ~~1 Heol Llanilltud~~, Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL.

Oni nodir yn wahanol, bydd eich enw a'ch manylion cyswllt yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Rydych chi, sydd wedi llofnodi isod, yn cytuno â'r telerau sydd wedi'u nodi uchod

Llofnod

Dyddiad

Enw

Printiwch

Cyfeiriad

Ebost

Rhif Myfyriwr

Tyst ar ran y Brifysgol

Llofnod

Dyddiad

Enw

Printiwch

Cyfeiriad

Ebost

Rhif Myfyriwr